



2il Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili Hyd 2020 - 2035

# Strategaeth a Ffefrir Cryondeb

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol newydd gyfer ardal y Sir.

Bydd y cynllun hwn yn sicrhau bod Caerffili yn gallu tyfu'n gynaliadwy dros y 10 mlynedd nesaf hyd at 2035.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n ymgynghori ar y 'Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig' ar gyfer y cynllun newydd.

Mae hwn yn crynhoi'r prif faterion mae Caerffili yn eu hwynebu a beth rydym ni'n meddwl ddylai gael ei wneud amdanynt. Mae'n nodi gweledigaeth, strategaeth, ac amcanion ar gyfer y cynllun.

Mae'r ddogfen hon yn fersiwn hawdd ei darllen sy'n rhoi crynodeb o'r Strategaeth a Ffefrir; mae'r fersiwn gyflawn ar gael ar https://caerphilly.oc2.uk/cy

# Pam mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn bwysig?

Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn bwysig am eu bod nhw'n gosod fframwaith ar gyfer sut y dylai'r holl ddatblygiad ddigwydd mewn ardal dros gyfnod oes y cynllun. Maen nhw'n ymdrin â phob agwedd ar ddefnydd a datblygiad tir ac yn gosod targedau ar gyfer twf, buddsoddiad a diogelu'r amgylchedd.



Cynlluniau Datblygu Lleol yw'r ffactor pwysicaf wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Unwaith mae'n cael ei fabwysiadu, bydd pob cais cynllunio yn cael ei brofi yn erbyn y polisïau yn y Cynllun.



# Beth yw ‘Strategaeth a Ffefrir’?

Mae’r Strategaeth a Ffefrir yn nodi’r weledigaeth hirdymor ar gyfer y fwrdeistref. Mae’n nodi pa ardaloedd yn y fwrdeistref sirol fydd yn cael eu hamddiffyn, faint o ddatblygiad sydd ei angen a lle mae hyn yn debygol o fod. Mae’r Strategaeth o Ddewis yn cynnwys:

- Crynodebau o faterion, heriau a chyfleoedd mae Caerffili yn eu hwynebu a'r hyn yr hoffem ni ei wneud amdanynt.
- Crynodeb o sut rydym ni’n credu y bydd Caerffili yn tyfu dros y 10 mlynedd nesaf.
- Gweledigaeth sy'n ceisio manteisio ar ein lleoliad strategol wrth galon Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac a fydd yn gwella lles y rhai sy'n byw, gweithio, chwarae ac ymweld â'r Fwrdeistref Sirol.
- Set o 15 nod a 25 amcan allweddol ar gyfer yr hyn y dylai'r cynllun ei gyflawni.
- Set o 22 o Bolisïau Cynllunio a fydd yn helpu i gyflawni'r weledigaeth, nodau ac amcanion.
- Adolygiad a newidiadau arfaethedig i bolisïau'r cynllun blaenorol sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio.

Y Strategaeth o Ddewis yw un o'r prif gamau wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Unwaith y byddwn ni wedi ystyried yr holl sylwadau ar y Strategaeth byddwn yn gweithio tuag at Gynllun Adneuo. Mae hwn yn ddrafft llawn o'r Cynllun yr ydym ni’n bwriadu ei lunio ar gyfer ymgynghoriad yn gynnar yn 2026. Gallwch wneud sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir ar https://caerphilly.oc2.uk/cy

Rhaid i sylwadau gael eu derbyn erbyn **26 Chwefror 2025.**

# Beth yw'r prif faterion mae Caerffili yn eu hwynebu?

Mae rhai o'r prif faterion a nodwyd ar gyfer y cynllun hyd yn hyn yn cynnwys:

Materion Cenedlaethol a Rhanbarthol gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio, heriau economaidd ehangach, prinder tai a chwblhau Metro De-ddwyrain Cymru.

Materion amgylcheddol, gan gynnwys cynnal a gwella bioamrywiaeth, hyrwyddo a darparu cynlluniau ynni adnewyddadwy, lliniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd, croesawu draenio cynaliadwy a lleihau'r perygl o lifogydd a hyrwyddo newid i drafnidiaeth gynaliadwy a cherbydau trydan.

Economic Issues, including high levels of economic inactivity, maximising employment opportunities, shortage of employment land, diversification from manufacturing and supporting tourism.

Materion Cymdeithasol, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio ac yn crebachu, mynd i'r afael ag amddifadedd, newid defnydd canol trefi, diogelu a gwella mannau gwyrdd a darparu seilwaith cymunedol angenrheidiol.

Materion Diwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo gwydnwch ac addasu ein hasedau treftadaeth wrth i ddatblygiad ddigwydd.

Mae'r materion hyn wedi helpu i greu Gweledigaeth fydd yn llywio'r yn arwain yr 2il CDLl Newydd.

# Ein Gweledigaeth

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd, bydd Strategaeth Ddatblygu Caerffili yn manteisio ar ein lleoliad strategol wrth galon Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd yn darparu datblygiad cynaliadwy a fydd yn gwella lles y rhai sy'n byw, gweithio, chwarae ac ymweld â'r Fwrdeistref Sirol. Erbyn diwedd cyfnod y cynllun bydd y strategaeth wedi gwneud y canlynol:

- Mynd i'r afael â'r heriau economaidd a chymdeithasol
- Datblygu a gwella'r seilwaith glas a gwyrdd ar draws y Fwrdeistref Sirol
- Mynd i'r afael â'r argyfwng tai drwy ddarparu tai fforddiadwy a thai marchnad
- Adeiladu ar gymeriad amrywiol a gwahanol y trefi a'r pentrefi yn y Fwrdeistref Sirol, a
- Gwella'r rhwydwaith strategol o gyfleusterau hamdden, adloniant, addysg a chymunedol, cryfhau cymunedau a meithrin gwell ansawdd bywyd i bawb

Bydd y rhain i gyd yn seiliedig ar agweddau mwy gwyrdd sy'n cynnwys:

- Mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy a cherbydau trydan, gan gynnwys seilwaith gwefru,
- Mwy o hygyrchedd drwy welliannau i'r rhwydwaith teithio llesol,
- Cynhyrchu a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy yn y Fwrdeistref Sirol

# Sut fydd y Sir yn tyfu?

Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn ceisio darparu datblygiad sy'n cael ei flaenoriaethu ar dir yng nghanol trefi ac yn agos at hybiau trafnidiaeth gyhoeddus yn gyntaf

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos y bydd angen i'r cynllun fod wedi darparu:



6,750 o gartrefi newydd ychwanegol a




44.5 hectar o dir cyflogaeth erbyn 2035.

Mae rhagor o fanylion am sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni a sut y byddwn ni’n mynd i'r afael â'r blaenoriaethau eraill yn ein gweledigaeth wedi'i gynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig.

# Beth yw’r opsiwn a ffefrir?

A Fel rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a gan fod Caerffili wedi’i chynnwys yn Ardal Twf Genedlaethol Cymru’r Dyfodol, rydym ni’n credu mai’r opsiwn gorau yw cynllunio ar gyfer twf yn ein poblogaeth oedran gweithio o 11,603 o bobl.




Er mwyn diwallu’r twf hwn, bydd y cynllun yn canolbwyntio datblygiad yng nghanol trefi presennol ac yn darparu tir i fanteisio i’r eithaf ar y cyfleoedd sy’n deillio o Fetro De-ddwyrain Cymru.

# Polisïau Cynllunio Strategol

Mae’r Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys set o 22 o Bolisïau Cynllunio a fydd yn helpu i gyflawni'r weledigaeth, nodau ac amcanion:

| | |
|---|---|
| **SP1: Y Lefel Twf ar gyfer 2RLDP** | **PS12: Targed Tai Fforddiadwy** |
| **PS2: Y Strategaeth o Ddewis wedi’i Diwygio ar gyfer 2RLDP** | **PS13: Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy** |
| **PS3: Hierarchaeth Aneddiadau** | **PS14: Newid Moddol** |
| **PS4: Ardaloedd Twf** | **PS15: Gwella Cludiant** |
| **PS5: Newid yn yr Hinsawdd** | **PS16: Diogelu Cyn-Reilffyrdd** |
| **PS6: Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy** | **PS17: Amddiffyn Llwybrau Gwella Trafnidiaeth Strategol** |
| **PS7: Egwyddorion Creu Lleoedd** | **PS18: Hierarchaeth Ffyrdd** |
| **PS8: Seilwaith Gwyrdd a Glas** | **PS19: Hierarchaeth Canolfannau Masnachol** |
| **PS9: Rheoli Twf Cyflogaeth** | **PS20: Llety Sipsiwn a Theithwyr** |
| **PS10: Rheoli Twf Twristiaeth** | **PS21: Mwynau** |
| **PS11: Rheoli Twf Tai** | **PS22: Rheoli Gwastraff Cynaliadwy** |

Rydym ni hefyd wedi cynhyrchu dwy ddogfen sy’n edrych ar pa mor gynaliadwy yw’r strategaeth. Enwau’r rhain yw Adroddiad Arfarniad Cynaladwyedd Cychwynnol (AAS) ac Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

# Dewch i ddweud eich dweud am siapio dyfodol Caerffili

Gallwch weld y fersiwn lawn a fersiwn gryno o'r Strategaeth Ddewisol Ddiwygiedig yn https://caerphilly.oc2.uk/cy.

Gellir gweld copïau caled o'r dogfennau ym mhob llyfrgell gyhoeddus, Swyddfeydd y Cyngor ym Mhenallta ac yn y Ganolfan Busnes a Thechnoleg ym Mharc Busnes Tredomen.

Byddwn yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ar draws y Sir drwy gydol mis Ionawr a mis Chwefror i ddarparu mwy o wybodaeth ac ateb eich cwestiynau am y cynllun.

Bydd y digwyddiadau'n cynnwys gweithdai strwythuredig dan arweiniad Cymorth Cynllunio Cymru a chymorthfeydd 'galw heibio' dan arweiniad Swyddogion Cynllunio Caerffili.

Mae'r digwyddiadau hyn yn agored i bawb.  Mae mwy o wybodaeth am y digwyddiadau ar gael yn www.planningaidwales.org.uk a https://www.caerphilly.gov.uk/pre-deposit-public-consultation

Os hoffech ddweud eich dweud ar lunio dyfodol y fwrdeistref sirol a'ch barn am y Strategaeth o Ddewis Ddiwygiedig, gallwch wneud hyn drwy'r ffyrdd canlynol:

- Mewngofnodi i'r porth ymgynghori yn https://caerphilly.oc2.uk/cy

Rhaid derbyn yr holl sylwadau erbyn 26 Chwefror 2025. Ni fydd unrhyw sylwadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.